



## Rhaglen Iwerddon Cymru 2014-2020

Pwyllgor Monitro'r Rhaglen (PMRh) - Cyfarfod 7

Dydd Iau 23 Tachwedd 2017 10.15a.m

Campws Prifysgol Abertawe, Abertawe

		Papurau
	10:00 – 10:15 Te a Choffi ar ôl cyrraedd	
1	10:15 – 10:25 Croeso, Agoriad a Chyflwyniad - Sioned Evans, Cadeirydd a David Kelly, Cyd-gadeirydd	
2	10:25 – 10:35 Cofnodion Cyfarfod 6 PMRh, gan gynnwys y pwyntiau gweithredu – 9 Mai 2017 Kilkenny – Sioned Evans	IWPMC1420(07)01
3	10:35 – 10:55 Cyfnod Pontio o'r UE	Ar lafar
4	10:55 – 11:00 Diweddariad ar y Rhaglen - Awdurdod Rheoli – Mike Pollard	Ar lafar
5	11:00 - 11:10 Adroddiad Diweddarau a Datblygu'r Rhaglen gan y Gyd-ysgrifenyddiaeth – Linda Weaver	IWPMC1420(07)02
6	11:10 – 11:20 Diweddariad Cyfathrebu – Mike Pollard	IWPMC1420(07)03
7	11:20 – 11:45 Cyflwyniad Prosiect - CALIN	
8	11:45 – 11:50 Trefniadau PMRh – Sioned Evans	Ar lafar
9	11:50 – 12:00 Hybu twf a chydlyniant yn rhanbarthau ffiniol yr UE - Marianne Van De Vorle	Ar lafar
10	12:00 – 12:15 Unrhyw Fater Arall/Dyddiad y cyfarfod nesaf	
	12:15 – 13:00 Cino	
11	13:00 - Diwedd Taith Fer o Gampws Prifysgol Abertawe	



## **Rhaglen Iwerddon Cymru 2014-2020**

Pwyllgor Monitro'r Rhaglen – Cyfarfod 7  
Campws Bae Abertawe, Abertawe, Cymru  
23 Tachwedd 2017

Dangosir rhestr o'r rhai a oedd yn bresennol yn Atodiad 1.  
Dangosir rhestr o ymddiheuriadau yn Atodiad 2.

### **Eitem 1 ar yr Agenda – Croeso – Agoriad a Chyflwyniadau**

1. Croesawodd y Cadeirydd Sioned Evans (SE) yr aelodau i Gampws Prifysgol Bae Abertawe a seithfed PMRh Rhaglen Iwerddon Cymru 2014-2020. Nododd y Cadeirydd nifer yr eilyddion a'r aelodau newydd o gwmpas y ford a gofynnodd i'r holl bobl a oedd yn bresennol gyflwyno'u hunain.

Sylwer bod Atodiad 1 yn rhestru'r rhai a oedd yn bresennol a bod Atodiad 2 yn cofnodi'r ymddiheuriadau.

2. Diolchodd SE i'r aelodau o Iwerddon am deithio i'r cyfarfod, a rhoddodd groeso i Marianne Van De Vorle, Swyddog Desg yr UE.
3. Diolchodd SE i'r Athro Richard Davies o Brifysgol Abertawe am gynnal pryd o fwyd neithiwr a darparu lleoliad y cyfarfod, yn ogystal â threfnu taith o'r campws i'r aelodau.
4. Esboniodd SE i'r aelodau, er gwaethaf ymdrechion y Gyd-ysgrifenyddiaeth, nad oedd y cyfarfod hwn yn gworwm fel y diffinnir yn y Telerau ac Amodau. Er mwyn cael cworwm, mae PMRh yn ei gwneud yn ofynnol i 13 o aelodau o leiaf fod yn bresennol a, gwaetha'r modd, roedd 12. O ganlyniad, rhoddodd SE wybod i'r aelodau na ellid gwneud penderfyniadau swyddogol. Dywedodd SE ei bod yn teimlo y dylai'r cyfarfod fynd rhagddo er mwyn cynnal momentwm y trafodaethau

gwerthfawr sy'n deillio o'r cyfarfodydd hyn a pharhau i adeiladu ar y berthynas rhwng y ddwy wlad.

5. Croesawodd SE Des Clifford (DC) i'r cyfarfod ac esbonio y byddai DC yn rhoi diweddariad i'r aelodau o ran Pontio o'r UE.
6. Achubodd SE ar y cyfle i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau ar gymeradwyaeth ddiweddar prosiect Mwy na Chlwb, gan gadarnhau mai cyfanswm arian y rhaglen a neilltuwyd, gyda'r gymeradwyaeth hon, yw ychydig dros €40miliwn.
7. Croesawodd SE David Kelly (DK) i gyd-gadeirio'r cyfarfod.
8. Mynegodd DK ei awydd i gynnal momentwm trafodaethau PMRh. Diolchodd DK i'r Athro Richard Davies am gynnal cyfarfod PMRh a'r pryd o fwyd gyda'r hwyr.

### **Eitem Agenda 3 Diweddariad Pontio o'r UE**

9. Ymddiheurodd DC am y newid yn nhrefn yr agenda o ganlyniad i'w angen i ddychwelyd i Gaerdydd i gwrdd â'i ymwelwyr o Berlin.
10. Rhoddodd DC y diweddaraf i'r aelodau ynghylch safbwynt presennol Llywodraeth Cymru. Ar hyn o bryd, mae cam 1, a adwaenir hefyd fel negodiadau Erthygl 50, yn mynd rhagddynt eisoes ac yn cyrraedd cam tyngedfennol fel cam 1, h.y. cyfarfod 14 a 15 Rhagfyr, er mwyn i'r negodiadau symud tuag at gam 2. Mae cam 1 yn canolbwyntio ar delerau ymadawiad y DU. Soniodd DC fod tri phrif faes trafod, h.y. arian, hawliau dinasyddion ac Iwerddon a materion ffin Iwerddon.
  - a. Hawliau dinasyddion – mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud ac ni fyddai'n fater wrth i'r trafodaethau symud ymlaen i gam 2;
  - b. Arian – nod y trafodaethau hyn yw penderfynu i ba raddau y mae rhwymedigaethau'r DU, yn ariannol, wedi'u cydnabod gan yr Undeb Ewropeaidd fel canlyniad i broses Erthygl 50. Cyfarfu Is-bwyllgor ar Ewrop Cabinet Llywodraeth y DU yr wythnos hon yn Llundain, gan gytuno y bydd angen cynyddu'r swm ariannol a gynigiwyd. Ni chyhoeddwyd ffigurau gwirioneddol, a
  - c. Materion ffin tir Iwerddon – Prin yw'r cynnydd a wnaed tan nawr. Mae Llywodraeth Iwerddon wedi dweud yn agored yr hoffai sicrwydd ariannol cyn dechrau cam 2 y negodiadau.

11. Roedd DC yn teimlo pe bai Llywodraeth y DU yn mabwysiadu'r argymhellion a gyflwynwyd mewn Papur Gwyn gan Lywodraeth Cymru y byddai swm sylweddol o'r materion sy'n ymwneud â ffin Iwerddon yn cael eu datrys. Mewn realiti, cadarnhaodd DC, pe bai Llywodraeth y DU yn derbyn y cyfarwyddiadau negodi gan Lywodraeth Cymru (fel y nodir yn y Papur Gwyn), y byddai swm sylweddol o'r materion ynghylch y ffin tir yn diflannu, h.y. cadw mynediad at y farchnad sengl trwy negodiadau ar sail ddwyochrog a'r DU yn parhau i fod yn rhan o undeb tollau wedi'i ailnegodi.
12. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu â Llywodraeth y DU ynghylch y negodiadau sy'n cynrychioli buddiannau Cymru.
13. Cadarnhaodd DC y bydd y Penaethiaid Llywodraeth, ar 14 a 15 Rhagfyr, yn cyfarfod â chynrychiolwyr yr UE, gyda'r uchelgais o sicrhau cytundeb i agor y drws i gam 2 y negodiadau. Bydd y cam hwn yn trafod y berthynas rhwng yr UE a Llywodraeth y DU yn y dyfodol.
14. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi bod yn glir na fydd yn dechrau rhagor o drafodaethau a symud i gam dau heb i gynnydd digonol gael ei wneud yng ngham 1. Os na cheir cytundeb yng nghyfarfod y Cyngor Ewropeaidd ym mis Rhagfyr, cadarnhaodd DC y gellid ystyried bod hwn yn gam tyngedfennol yn ymadawiad y DU â'r UE o ystyried y terfyn amser ym mis Mawrth 2019.
15. Datganodd DC nad yw'n awydd gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i Gytundebau Masnach y Byd gael eu rhoi ar waith.
16. Tynnodd DC sylw at rai o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru:
  - a. Y berthynas mae Cymru am ei chael â'r UE yn y dyfodol yw, er na fydd Cymru yn rhan o'r UE, mae am barhau i fod yn wlad Ewropeaidd;
  - b. Mae Llywodraeth Cymru am barhau i gael mynediad at Interreg ar sail debyg i wledydd sydd y tu allan i'r UE. Gan ddilyn y dull yn Norwy, gellir negodi hyn, gan barhau â'r berthynas rhwng Cymru ac Iwerddon o ganlyniad i hynny;
  - c. Ffin forol – y cyd-fuddiant wrth wneud y gorau o'r ased hwn o ystyried canran uchel y nwyddau sy'n cael eu hanfon ar long o Iwerddon drwy Gymru i'r farchnad Ewropeaidd;
  - d. Materion ffin – pryderon ynghylch tariffau posibl sy'n rhoi porthladdoedd Cymru dan anfantais ac yn annog traffig drwy borthladdoedd eraill, h.y. yr

Alban. Mae'r rhain yn amgylchiadau na fyddai Llywodraeth Cymru am iddynt godi.

- e. Mae trafodaethau'n parhau rhwng y ddau Weinidog a cheir deialog weithredol drwy T Shop, gyda'r cyfarfod nesaf i'w gynnal ym mis Ionawr. Rhagwelir y bydd y Gweinidogion yn cyfarfod ddechrau'r flwyddyn nesaf yn Nulyn.

17. Diolchodd y Cadeirydd i DC am ei ddiweddariad ac agorodd yr eitem ar yr agenda i'w thrafod.

- a. Gofynnwyd am y ffordd orau o osgoi 'argyfwng'; colli sgiliau mewn sectorau megis iechyd ac adeiladu; gan ddatgan y dylai amserlen arfaethedig y cyfnod pontio fod yn fwy na 2 flynedd a symud tuag at 5 mlynedd. Cytunodd DC a chadarnhaodd fod busnesau hefyd yn cytuno ynghylch y niwed economaidd a geir yn y DU a Chymru. Esboniodd DC, o drafodaethau â busnesau, nad yw effaith Brexit yn aros tan fis Mawrth 2019, ond ei bod eisoes wedi dechrau mewn gwirionedd. Mae DC yn deall effaith colli sgiliau ac ati, yn ogystal â'r potensial i hyn gael effaith ar economi Cymru nawr ac yn y dyfodol. Tynnodd DC sylw at y ffaith bod busnesau'n llunio cynlluniau strategol nawr ac, o ganlyniad, mae achosion lle nad oedd penderfyniadau buddsoddi'n cael eu gwneud o blaid Cymru oherwydd yr ansicrwydd presennol. Cyfeiriodd DC at Bapur Gwyn diweddar, sef 'Diogelu Dyfodol Cymru' a luniwyd gan Lywodraeth Cymru. Tynnodd sylw at 6 phwynt allweddol ac roedd 1 ohonynt yn ymwneud â'r cyfnod pontio, yn enwedig ei hyd. oherwydd ei bod yn ddigon posibl y bydd yn rhy fyr i'r DU allu dod i gytundeb ymadael llwyddiannus a meithrin perthynas fasnachu newydd â'n partneriaid yn yr UE.
- b. Gwnaed arsylwadau hefyd gan aelodau ynghylch yr effaith ar y sector twristiaeth, gan nodi gostyngiad 7 y cant yn Iwerddon. Cyfeiriodd aelodau at Gais PA3, gan fynegi'r farn y byddai'n cael effaith gadarnhaol ar nifer yr ymwelwyr. Gan barhau â'r thema twristiaeth, nodwyd bod cynnydd sydyn yng Nghymru ar hyn o bryd gyda chafeat bod ansicrwydd o ran pa mor hir y byddai hyn yn para. Yn benodol, nodwyd bod perchnogion gwestai yn cael trafferth recriwtio staff ar hyn o bryd. Amlinellodd DC fod gan Lywodraeth Cymru farn gadarnhaol ar fudo o'r UE i Gymru a'i bod yn ymwybodol o'r effaith y bydd hyn yn ei chael ar lawer o sectorau, gan gynnwys twristiaeth, y byd academiaidd a'r GIG os na chaiff hyn ei drin yn gywir. Unwaith eto, cyfeiriodd DC at y ddogfen a gafodd ei llunio gan Lywodraeth Cymru a'i chyflwyno i Lywodraeth y DU i sicrhau aelodau o

ddymuniadau Llywodraeth Cymru ynghylch mudo. Mae Llywodraeth Cymru yn teimlo y dylai mudo a symudiad rhydd pobl fod yn gysylltiedig ag anghenion cyflogaeth gan fod manteision i Gymru/y DU a'r UE (dylai pobl ddod gyda chynnig swydd neu fwriad i ddod o hyd i swydd yn y tymor byr, h.y. 3-6 mis).

- c. Mewn ymateb, gofynnwyd a ddylid cyfyngu ar fudo i'r rhai sydd â chynigion swydd yn unig neu a ddylid ystyried ochr ddyngarol achosion, h.y. ffoaduriaid, wrth benderfynu ar nifer y pobl i'w derbyn. Cadarnhaodd DC nad oes pwerau cyfansoddiadol gan Lywodraeth Cymru dros bolisi ffoaduriaid (dinasyddion nad ydynt o'r UE), maes cymhwysedd yr UE yn unig yw hwn. Crynhodd DC y byddai Gweinidogion Llywodraeth Cymru am i Gymru wneud cyfraniad dyngarol tuag at faterion ehangach dosbarthu ffoaduriaid yn Ewrop.
- d. Gofynnodd David Kelly (DK) beth oedd barn DC ar drafodaethau Brexit yn symud i Gam dau ar 14 a 15 Rhagfyr o ystyried rhai o'r trafodaethau a gafwyd, er enghraifft, ar ffin Iwerddon? Cadarnhaodd DC ei bod yn anodd ymateb un ffordd neu'r llall ar hyn o bryd. Pe bai'r gofynion i symud y negodiadau i'r cam nesaf yn seiliedig ar gydnabod cyd-fuddiant yn y tymor hir, gellid bod yn obeithiol. Yn y tymor hir, mae buddiant amlwg i'r DU a'r UE ddod i gytundeb o ran sut i reoli materion, mewn masnach er enghraifft. Rhybuddiodd DC fod y negodiadau hyn yn ymwneud â chyd-fuddiant, felly rhaid ystyried y gyfres gymhleth o bryderon gwleidyddol yn Llywodraeth y DU. Hefyd, mae cyfres o faterion gwleidyddol ar draws y 27 o Wladwriaethau Ewropeaidd sy'n ychwanegu lefel arall o gymhlethdod. Os canfyddir bod telerau ac amodau ar gael i'r DU sy'n cyfateb i rai'r gwledydd sy'n aelodau o'r UE, neu delerau ac amodau gwell na hynny, ni fyddai honno'n sefyllfa ymarferol. Er enghraifft, pe bai'r DU yn gadael gyda thelerau ac amodau gwell na rhai Canada, sydd wedi treulio blynyddoedd lawer yn gweithio ar ei chytundeb masnach, byddai cwestiynau'n cael eu codi oddi mewn i wledydd yr UE.
- e. Mewn ymateb i bryder aelod am y cyfeiriadau parhaus at y materion ffin tir a'r canfyddiad bod diffyg ymgysylltiad gan Lywodraeth y DU ar ffin y môr, cydnabu aelod o Iwerddon nad yw'n cael y sylw o'i gymharu â'r ffin tir, ond rhoddodd sicrwydd i'r aelodau nad yw'n angof. Esboniodd DK fod y Broses Heddwch yn cael proffil uwch.
- f. Nodwyd bod pobl/busnesau o Iwerddon eisiau ffin feddal rhwng gogledd a de'r wlad ac Iwerddon a'r DU oherwydd yr effaith bosibl y gall ffin galed ei chael ar allforion Iwerddon i'r DU. Hefyd, nodwyd bod Sterling yn cael effaith uniongyrchol ar fusnes o ystyried ei gyfradd bresennol a'r effaith y

byddai hyn yn ei chael ar feintiau elw busnes.

18. Diolchodd SE i DC am ei amser a'i gyfraniad at y cyfarfod.

### **Eitem 2 ar yr Agenda – Cofnodion Cyfarfod 6 PMRh, gan gynnwys pwyntiau gweithredu – 9 Mai 2017 Kilkenny**

19. Esboniodd SE na fydd cofnodion drafft 6ed cyfarfod PMRh, a gynhaliwyd yn Kilkenny, yn cael eu cymeradwyo'n ffurfiol yng nghyfarfod hwn PMRh oherwydd nad yw'n gworwm ac yn unol â Rheolau Trefniadaeth PMRh. Byddai'r broses gymeradwyo ffurfiol yn cael ei chynnal drwy'r drefn ysgrifenedig maes o law ar ôl i gyfarfod hwn PMRh ddod i ben.

20. Gofynnodd SE am sylwadau neu naratif yr oedd angen eu hymgorffori. Rhoddodd SE wybod i'r Pwyllgor nad oedd y cofnodion drafft hyn wedi'u cymeradwyo eto gan gydweithwyr yn yr Adran Gwariant Cyhoeddus a Diwygio yn Iwerddon, ond y byddai hyn yn cael ei wneud.

21. Cadarnhaodd SE, yn absenoldeb ceisiadau i gynnig diwygiadau a heb arsylwadau wedi'u cyflwyno, y byddai'r cofnodion hyn bellach yn cael eu cymeradwyo drwy'r drefn ysgrifenedig.

### **Eitem 4 ar yr Agenda – Diweddariad Rhaglen – Awdurdod Rheoli**

22. Cyflwynodd SE Mike Pollard (MP) i arwain yr eitem hon ar yr agenda.

23. Roedd MP yn teimlo, yn dilyn eitem DC, yr hoffai achub ar y cyfle i roi'r diweddaraf i'r aelodau ar y gwaith sy'n cael ei wneud ar Interreg gyda Llywodraeth y DU a chydweithwyr gweinyddiaethau datganoledig yn bwrw ymlaen â'r agenda Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd (ETC). Mae'r llinellau cyfathrebu o ran Interreg yn agored iawn gyda Strategaeth Busnes, Ynni a Diwydiannol sy'n arwain y polisi yn y DU ar gyfer ETC a chyda'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol sydd â'r arweiniad gweithredol. Nododd MP y cynhelir cyfarfodydd rheoli chwarterol y DU ar draws yr holl raglenni sydd â buddiant Cymru/y DU. Ymhellach, cynhelir galwadau ffôn rheolaidd i rannu'r diweddaraf â chydweithwyr yng Ngogledd Iwerddon a'r Alban sy'n parhau i fod yn bwysig iawn ar hyn o bryd o ystyried yr ansicrwydd ynghylch Brexit. Nododd MP y pwysir ar Lywodraeth y DU am ei chynlluniau ynghylch rhaglenni presennol Interreg, yn ogystal â'r hyn sydd eisoes yn hysbys am Warrant y Trysorlys.

Nododd MP, yn ogystal â Chymru, fod y gweinyddiaethau datganoledig eraill, gan gynnwys ein cydweithwyr o DERP yn Llywodraeth Iwerddon, nad oeddent yn gallu dod i gyfarfod heddiw, â diddordeb mewn gwybod beth fydd canlyniad rhaglenni 2014-2020. Rhodd MP sicrwydd i'r aelodau y gofynnir i Lywodraeth y DU am ragor o dryloywder yn barhaus. Fodd bynnag, ni cheir llawer o ymateb er gwaethaf y llinellau cyfathrebu llawn ac agored. Mae MP wedi gofyn i Lywodraeth y DU am ragor o ddealltwriaeth am bosibilrwydd cyfnod pontio yn dilyn araith y Prif Weinidog yn Fflorens a sut y byddai hyn yn cyd-fynd â rhaglenni Interreg. Dywedodd MP fod Partneriaid hefyd yn gofyn sut y bydd cyllid yn llifo ar ôl 2019. Rhoddodd MP sicrwydd i'r aelodau fod Adran y Trysorlys yn ymwybodol o nodweddion y rhaglen.

24. Cyfeiriodd MP at y gynhadledd ddiweddar a gynhaliwyd ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a Phwyllgor y Rhanbarthau Morol Ymylol (CPMR) yng Nghaerdydd ar 16 Tachwedd, pan lofnodwyd Datganiad Caerdydd. Mae'r Datganiad hwn yn nodi'r negeseuon gwleidyddol allweddol i'r Comisiwn Ewropeaidd a Senedd Ewrop, a Llywodraeth y DU. Yng nghyd-destun ETC, rhoddodd MP wybod i'r aelodau bod hyn yn pwysleisio pwysigrwydd cyfranogiad gwledydd y DU mewn unrhyw raglenni ETC yr UE yn y dyfodol. Yn achos 'dim cytundeb' ar ôl Brexit, mae'n cefnogi fframwaith cydweithredu â 27 gwlad yr UE bod y Comisiwn Ewropeaidd yn agor y posibilrwydd bod gweinyddiaethau datganoledig y DU, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, yn cymryd rhan mewn rhaglenni Ewropeaidd yn uniongyrchol. Ailadroddodd MP bwysigrwydd llofnodi'r datganiad fel datganiad clir gan y Prif Weinidog ar ran Llywodraeth Cymru yn datgan ei hawydd parhaus i gymryd rhan mewn rhaglenni Ewropeaidd. Hefyd, cadarnhaodd y Prif Weinidog awydd Llywodraeth Cymru i ddatblygu perthynas â phartneriaid allweddol, gan gynnwys dyfnhau'r ymgysylltiad ag Iwerddon y tu allan i'r UE, gan adeiladu ar y cwlwm agos sydd eisoes ar waith rhwng y ddwy wlad wrth ddatblygu rhaglen olynol â Llywodraeth Iwerddon ar ôl 2020.

25. Agorodd SE yr eitem ar yr agenda i'r aelodau ei thrafod.

26. Gofynnodd aelod am wybodaeth ychwanegol ynghylch o ble y daw'r cyllid ar ôl 2019 o ystyried y bydd angen cyfran fawr o gyllid y rhaglen ar ôl yr amser hwn. Cadarnhaodd MP ei fod wrthi'n trafod â Llywodraeth y DU er mwyn cael rhagor o eglurhad ac, ar hyn o bryd, ni allai gadarnhau pa ddulliau ariannu a fydd ar waith. Rhoddodd MP sicrwydd i'r aelodau y byddai'n rhoi gwybod iddynt pan fyddai mwy o wybodaeth ar gael. Aeth Jane McMillian (JM) ati i roi sicrwydd i'r aelodau bod WEFO yn dal i weithio ar sail Gwarant y Trysorlys sy'n cwmpasu Rhaglen Iwerddon Cymru, ac yn nodi y byddai'r Warrant yn cwmpasu'r prosiectau a



gymeradwywyd hyd at yr adeg pan fo'r DU yn ymadael â'r UE. Ailadroddodd JM nad ydym, ar hyn o bryd, yn ymwybodol pa ddulliau a fydd ar waith ar ôl mis Mawrth 2019.

27. Gofynnodd DK sut y mae Gwarant y Trysorlys yn cysoni ei hun â newid posibl i ddyddiad mis Mawrth 2019. Cadarnhaodd JM fod y warant yn parhau'n unol â dyddiad mis Mawrth 2019. Fodd bynnag, o ran y posibilrwydd o gyfnod pontio a'r dulliau ariannu, mae'r rhain i gyd yn faterion nas penderfynwyd arnynt eto. Cadarnhaodd JM fod WEFO wrthi'n gweithio i'r terfyn amser hwn o ran cymeradwyo prosiectau er mwyn sicrhau'r manteision ariannol mwyaf i Gymru.
28. Ceisiodd aelod eglurhad ynghylch amseriad taliadau ar gyfer prosiectau unigol o ran Gwarant y Trysorlys, h.y. a fyddant yn cael eu talu ar ryw adeg, ond nid o reidrwydd o fewn amserlenni disgwylidig y prosiectau? Cadarnhaodd JM mai'r goblygiad o'r Warant yw byddai'r arian yn cael ei dalu o fewn amserlenni'r rhaglen a phroffiliau cyflawni'r prosiectau. Mae rhagor o fanylion penodol i'w cadarnhau o hyd. Cadarnhaodd SE fod Llywodraeth Cymru a WEFO wedi derbyn geiriad Gwarant y Trysorlys o ran prosiectau a gwmpesir tan fis Mawrth 2019 ac felly, gan weithio ar sail 'busnes fel arfer' gan ein bod yn chwilio am brosiectau o'r un ansawdd i fodloni ein meini prawf ar gyfer cymhwysra, mae WEFO am gyflymu'r gyfradd y mae'r prosiectau'n dod drwodd.
29. Mewn ymateb i bryderon aelodau ynghylch yr effaith bosibl ar brosiectau arweiniol y 3<sup>ydd</sup> sector ynghylch taliadau anamserol, nododd SE nad yw'n fwriad Llywodraeth y DU na Llywodraeth Cymru i wneud sefydliadau'r 3<sup>ydd</sup> sector yn agored yn ariannol a pheryglu llif arian parod a byddai angen i ddulliau ariannol ystyried hyn.
30. Cadarnhaodd JM, mewn ymateb i gwestiwn o gymhwyso maen prawf penodol yn erbyn prosiectau i benderfynu ar gymhwysra ar gyfer Gwarant y Trysorlys ac i arian gael ei ryddhau, mae WEFO, fel yr Awdurdod Rheoli, wedi pennu'r strategaeth ar gyfer y rhaglenni, mae WEFO yn asesu'r prosiectau ac yn penderfynu a ydynt yn cynnig y cysondeb strategol. Ailadroddodd MP, oherwydd prosesau WEFO, y gwneir gwiriadau yn erbyn gwerth am arian a'u bod yn unol â gofynion polisi. Soniodd JM mai un maes a allai fod yn destun pryder yw perfformiad y rhaglen a/neu'r prosiectau. Fodd bynnag, caiff hyn ei fonitro gan gyfarfodydd adolygu prosiect rheolaidd sy'n dilyn gweithdrefn ffurfiol glir ar gyfer pob cyfarfod adolygu.

31. Ychwanegodd SE, o ran neilltuo arian Ewropeaidd, fod Cymru ar hyn o bryd yn ail yn Ewrop, ond bod gwahaniaeth o ran dilyn y gwariant yn ôl proffil. Cadarnhaodd JM, y bydd hyn yn parhau i gael ei fonitro'n rheolaidd. Mae staff WEFO yn cynnal cyfarfodydd adolygu rheolaidd â buddiolwyr arweiniol lle maent yn cyfleu'r angen iddynt ddilyn eu gwariant proffil a'u dangosyddion. Dywedodd SE, gan nad yw Gwarant y Trysorlys wedi'i hoelio yn ei lle, fod angen i'r rhaglen hon a rhaglenni Ewropeaidd eraill fod mewn sefyllfa i gadarnhau bod yr arian wedi'i ymrwymo a'i wario'n unol â disgwyliadau WEFO.
32. Dywedodd JM y cynhelir gwiriadau strwythuredig archwiliad ffurfiol yn y ddwy wlad, yn Iwerddon lle mae Rheolwyr Lefel Gyntaf ac, yng Nghymru, y Tîm Gwiriadau Dilysu Rheolaeth sy'n cyflawni'r gofynion hyn. Cynhelir gwiriadau rhaglen ar ffurf ariannol, cydymffurfiaeth ariannol gwariant a chyflawni gweithgarwch a gadarnhawyd gan y prosiectau yn eu busnes.
33. Dywedodd DK, fel rhan o raglenni newydd 2014 -2020, fod y gallu i ddangos bod prosiect wedi cyflawni'n unol â'i gynllun busnes yn cyd-fynd â'r fframwaith perfformiad newydd.

#### **Eitem 5 ar yr Agenda – Adroddiad Diweddarau a Datblygu'r Rhaglen gan y Gyd-ysgrifenyddiaeth**

34. Cyflwynodd Linda Weaver (LW), Pennaeth y Gyd-ysgrifenyddiaeth, Adroddiad Diweddarau'r Rhaglen a grynhodd y cynnydd ers chweched cyfarfod PMRh ym mis Mai 2017. Roedd yn cynnwys adroddiad cynnydd ar y prosiectau hynny yn y system arfarnu, trosolwg o lefelau ymrwymo grantiau, a gwybodaeth gychwynol am allbynnau rhagolygol y prosiectau yn y system. Tynnwyd sylw at y targedau gwariant N+3 ym mharagraffau 17 a 18 yr adroddiad, gan nodi mai'r targed cyntaf fydd diwedd 2018.
35. Cafwyd crynodeb o gynnydd pob Echel Blaenoriaeth (PA). Erbyn hyn, roedd deg gweithrediad bellach wedi'u cymeradwyo'n ffurfiol yn PA1 a PA2 ac un yn PA4. Mae Adran 6 yn dangos safbwynt ymrwymo ariannol y rhaglen; mae Tabl 1 yn rhoi darlun ariannol cyflawn o fusnes yn y system ac yn cadarnhau mai cyfradd ymrwymo bresennol y rhaglen yw 52%.

1. PA1 – Cadarnhaodd LW fod 6 rhaglen wedi'u cymeradwyo ym Mlaenoriaeth 1 ac mai'r un ddiweddaraf yw Mwy na Chlwb a lanswyd ddechrau'r flwyddyn hon;

2. PA2 – 4 rhaglen wedi'u cymeradwyo, a
3. PA4 – un prosiect wedi'i gymeradwyo, sef prosiect TA.

36. Rhoddodd LW wybod i PMRh fod llawer o gynigion yn y cam cynllunio busnes, h.y. 22. Fodd bynnag, rhoddodd LW wybod i'r aelodau ei bod yn annhebygol y byddai'r holl gynigion hyn yn cael eu datblygu hyd at benderfyniad ariannu (am ragor o wybodaeth, cyfeiriwch at bapur IWPMC1420(07)02, paragraffau 8 a 9).
37. Rhoddodd LW wybod i'r aelodau am y newyddion a gafodd ei groesawu bod y Gyd-ysgrifenyddiaeth wrthi'n llunio ei phrosiect PA3 cyntaf i'w gymeradwyo, sef Llwybrau Celtaidd a, chyda chymeradwyo'r prosiect hwn, y byddai lefelau ymrwymo'r rhaglenni'n cynyddu i 54%.
38. Rhoddodd LW y diweddaraf i'r Pwyllgor ar y Cais PA3 a gynhaliwyd yn gynharach yn y flwyddyn, gan nodi ymateb cadarnhaol a oedd yn cynnwys cyflwyno 25 o gynigion – roedd 12 dan arweiniad Iwerddon a 13 dan arweiniad Cymru. Cyfanswm yr arian ERDF y gwnaed cais amdano oedd €36m.
39. Cynhaliwyd cyfarfod Grŵp Technegol (TG). O ganlyniad iddo, symudodd 6 o'r cynigion i gam cynllunio busnes (4 dan arweiniad Cymru a 2 dan arweiniad Iwerddon), gan wneud cais i ERDF am oddeutu €11.28m. Yn ychwanegol, cadarnhaodd LW y dychwelwyd 3 chynnig ar gyfer rhagor o waith, gydag amserlen benodol i'w hailgyflwyno'n cynrychioli €5.0m o arian ERDF. Rhoddodd LW wybod i'r aelodau bod y 3 chynnig a ddychwelwyd ar gyfer rhagor o waith wedi'u hailgyflwyno mewn gwirionedd. Bwriad y Gyd-ysgrifenyddiaeth yw prosesu'r tri hyn drwy TG ysgrifenedig yr wythnos nesaf. Y cyfanswm posibl y gellir ei ymrwymo ar gyfer PA 3 yw €22.1m gyda €15.5 ar gael. O ganlyniad i hyn, bydd yn rhaid i Bwyllgor Llywio'r Rhaglen gynnal proses gystadleuol. Bwriad y Gyd-ysgrifenyddiaeth yw trefnu cyfarfod Pwyllgor Llywio'r Rhaglen ym mis Mehefin 2018 er mwyn bodloni'r terfynau amser tynn ymlaen llaw a sicrhau y gall yr arian mwyaf gael ei ymrwymo.
40. I grynhoi, dywedodd LW fod 12 o gynigion yn y system, bod naw yn y cam cynllunio busnes (ar gyfer rhestr o'r 12 o gynigion, cyfeiriwch at bapur IWPMC1420(07)02, tudalennau 5 a 6). Tynnodd LW sylw at y ffaith bod cofnodion y TG wedi'u hatodi i'r papur hwn er mwyn cyfeirio atynt; roedd y cofnodion hyn yn manylu ar y penderfyniadau ynghylch y 25 o gynigion.

41. Roedd chwe chynllun busnes wedi'u hystyried gan Bwyllgor Llywio'r Rhaglen ers cyfarfod diwethaf PMRh ym mis Mai, yr oedd 2 ohonynt yn weithrediadau yr oedd angen penderfyniadau ariannu arnynt er mwyn eu cymeradwyo, h.y. PA1 Mwy na Chlwb a PA3 Llwybrau Celtaidd.
42. Cyfeiriodd LW at baragraffau 17 a 18 a roddodd eglurhad i'r aelodau ynghylch Targedau Gwariant y Rhaglen (N+3). Yn dilyn datganiad ariannol diweddar €820,000 i'r CE a chyda'r hyn sydd yn y system, mae gennym swm digonol i gyrraedd ein targed N+3 ar gyfer 2018.
43. Cadarnhaodd LW fod yr Archwiliad Cronfeydd Ewropeaidd cyntaf wedi'i gynnal yn cwmpasu Gofynion Allweddol 1 a 2. Cyfeiriodd LW at gasgliadau'r archwiliad fel y nodir ym mharagraff 19. Cadarnhaodd LW fod yr Awdurdod Rheoli a'r Gydysgrifenyddiaeth wedi nodi cynllun gweithredu a fydd yn trafod y materion a godwyd yn yr archwiliad.
44. Cadarnhaodd LW, ar ôl cymeradwyo'r Adroddiad Gweithredu Blynyddol (AIR) gan PMRh, fod adroddiad 2016 ar gael ar wefan Iwerddon/Cymru.
45. Tynnodd LW sylw'r aelodau at Atodiad A a'r tablau dangosyddion wedi'u crynhoi fesul blaenoriaeth. Esboniodd LW fod y ffigurau hyn yn cynrychioli'r prosiectau a gymeradwywyd yn unig. Felly, pan fydd mwy o brosiectau'n symud o'r cam cynllunio busnes i'r cam cymeradwy, bydd y ffigurau hyn yn edrych yn llawer gwell. Mae'r Gydysgrifenyddiaeth wrthi'n gweithio ar fireinio diffiniadau dangosyddion.
46. Soniodd LW mai Atodiad B oedd cofnodion cyfarfod 7 y Grŵp Technegol, sy'n cynnwys crynodeb o'r holl gynigion a phenderfyniadau'r TG.
47. Dosbarthodd LW Atodiad C yng nghyfarfod PMRh i'r aelodau ei weld ac esboniodd mai nifer o daenlenni ydoedd C a roddodd grynodeb sectoraidd a daearyddol a dadansoddiad o'r sefydliadau sy'n cymryd rhan yn y rhaglen. Cadarnhaodd LW y bydd, ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol, yn ceisio llunio siartiau cylch lliw i ddangos y wybodaeth hon.
48. Nododd aelod, gan fod y rhan fwyaf o'r sefydliadau sy'n cymryd rhan yn y rhaglen hon yn gyrrff sector cyhoeddus, na ddylid ystyried bod y materion a drafodwyd yn gynharach ynghylch lliw arian parod mor fawr ag a ystyriwyd yn wreiddiol.

49. Yn dilyn diweddariad y Gyd-ysgrifenyddiaeth, datganodd nifer o aelodau wrthdaro buddiant posibl mewn rhai o'r cynigion a'r prosiectau a gymeradwywyd:-
- i. Jason Thomas (Croeso Cymru Llywodraeth Cymru, e.e. CADW)
  - ii. Gwyn Evans (Cyngor Sir Penfro)
  - iii. Deirdre Finlay (The WHEEL)
  - iv. Jessica Williams (WCVA)

**Pwynt Gweithredu: 23.12.2017/1 Bydd yr aelodau a restrwyd uchod yn rhoi rhagor o fanylion am eu gwrthdaro buddiant o ran prosiectau Rhaglen Iwerddon Cymru y maent yn gysylltiedig â nhw.**

50. Nododd aelod fod y cofnodion yn nodi bod y prosiect Mwy na Chlwb dan PA3 pan ddylai fod dan PA1 mewn gwirionedd. Cadarnhaodd LW y caiff y cofnodion eu diwygio er mwyn adlewyrchu'r categori cywir.
51. Gan gyfeirio at dudalen 4 o ddiweddariad y Gydysgrifenyddiaeth, cyfeiriodd Gwyn Evans o Gyngor Sir Penfro at y naratif a eglurodd pam mae'r prosiect Exportable wedi'i dynnu'n ôl. Cadarnhaodd GE ei fod wedi cael e-bost gan Gyngor Abertawe sy'n rhoi esboniad gwahanol, gan ei fod wedi treulio amser sylweddol, yn gyntaf yn gweithio ar y cynnig a, chyda threigl amser, daeth yn anodd gweld y hyn roedd y Prif Fuddiolwr am ei gael o'r prosiect. Dywedodd GE fod Prifysgol Abertawe o'r un farn. Dywedodd GE i Gyngor Sir Penfro a Phrifysgol Abertawe gyfleu i John na allai'r naill sefydliad na'r llall ymrwymo'r adnoddau gofynnol gan ei fod yn cynnwys swm anferth o waith yn seiliedig ar yr ymholiadau dan sylw. Gofynnodd GE i'r cofnodion adlewyrchu'r safbwynt gan yr holl bartneriaid dan sylw, nid yr arweinydd yn unig.

52. Mewn ymateb i GW, eglurodd LW fod y naratif wedi'i gymryd o ohebiaeth â'r prif fuddiolwr, nid rhywbeth a luniwyd gan y Gyd-ysgrifenyddiaeth.

**Pwynt Gweithredu: 23.11.2017/2 Cadarnhaodd LW y byddai hyn yn cael ei adlewyrchu yn y cofnodion.**

53. Gofynnodd aelod i LW sut y cyfrifwyd y ffigur, sef €22.1m y cyfeiriwyd ato ar dudalen 5 o dan Gynodeb Ceisiadau. Cadarnhaodd LW fod y ffigur hwn yn cynnwys y prosiectau yn y cam cynllunio busnes.
54. Gofynnodd aelod a oedd prosiect arall â'r enw Llwybrau Celtaidd yn y rhaglen hon neu raglen arall, gan fod Cyngor Sir Ceredigion yn credu bod prosiect â'r enw hwn wrthi'n cael ei gynnal. Cadarnhaodd aelod fod Croeso Cymru newydd

gael lansiad mawr o dri llwybr eiconig yng Nghymru. Enw un ohonynt yw Ffordd Cambria, ond cyfeiriwyd ato weithiau fel Llwybrau Celtaidd, sy'n esbonio'r dryswch posibl.

### **Pwynt Gweithredu 23.11.2017/3 Cyd-ysgrifenyddiaeth i drafod croesi/dryswch posibl rhwng Llwybrau Celtaidd ac Arfordiroedd Celtaidd Chwedlonol**

55. Gofynnwyd am y ffigurau a ddangosir yn y tabl dangosyddion ar dudalen 9; gyda chyfradd gymeradwyo'r rhaglen yn 54%, a yw'r dangosydd, sef 'targed nifer y mentrau a gefnogir i gyflwyno cynhyrchion newydd i'r cwmni', mae rhagolwg presennol y prosiect ymhell i ffwrdd. Cadarnhaodd JM ac LW fod y dangosydd hwn wedi achosi tipyn o ddryswch i sefydliadau wrth benderfynu a ydynt yn gallu bodloni'r gofynion archwilio er mwyn hawlio yn ei erbyn ac, ar ôl i eglurhad gael ei roi, rhagwelir y bydd ffigurau rhagolygon y dangosyddion yn cynyddu. Rhagwelodd JM fod llawer o sefydliadau eisoes yn cynnal gweithgareddau a fydd yn golygu y gallant gofnodi cyflawniadau ar ôl i ddiffiniad y dangosydd hwn gael ei roi.
56. Anogodd aelod i'r Gyd-ysgrifenyddiaeth ystyried cynaliadwyedd tymor hir y prosiectau sy'n dod drwodd.
57. Diolchodd JM i LW am ddiweddariad cadarnhaol gan y Gyd-ysgrifenyddiaeth yn nodi'r cynnydd a wnaed yn PA3. Ailadroddodd DK farn JM ynghylch llwyddiant y cais PA3 o ystyried y pryderon a nodwyd ar ochr Iwerddon o ran gostyngiad mewn diddordeb yn y rhaglen, yn ogystal â chymhelliant cael cais penodol y teimlwyd ei fod yn mynd i'r afael â'r pryderon hyn.

### **Eitem 7 ar yr Agenda – Cyflwyniad Prosiect – CALIN**

58. Croesawoddy Cadeirydd Gareth Healey a Steve Conlan o Brifysgol Abertawe a phrosiect CALIN i gyfarfod PMRh. Rhoddodd y ddau gynrychiolydd o CALIN gyflwyniad addysgiadol i PMRh, gan ddisgrifio nodau ac amcanion y prosiect.
59. Diolchodd y Cadeirydd i'r ddau gynrychiolydd prosiect am y cyflwyniad a chynnig y cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau. Cynhaliwyd sesiwn holi ac ateb ddefnyddiol a gofynnwyd llawer o gwestiynau manwl gan yr aelodau.

### **Eitem 6 ar yr Agenda – Diweddariad Cyfathrebu**

60. Aeth MP â'r aelodau drwy'r Diweddariad Cyfathrebu a ddsbarthwyd i'r aelodau'n flaenorol. Cadarnhaodd MP fod y diweddariad hwn yn cysoni ei hun â Strategaeth Gyfathrebu y rhaglenni, wedi'i chymeradwyo gan PMRh.
61. Cyfeiriodd MP at Atodiad 1 a roddodd ddiweddariad gweledol i PMRh o sylw'r rhaglen yn y cyfryngau a dadansoddiad o ystadegau llwyfannau'r cyfryngau.
62. Canolbwyntiodd MP ar sylw'r aelod tuag at y cyhoeddusrwydd ynghylch Cais PA3 ac ailfywiogi'r rhaglen. Roedd yr angen i greu diddordeb i fynd i'r afael â nifer bach y cynigion yn PA3 hefyd yn golygu y gallai'r rhaglen ei hun fagu momentwm ac, yn ei thro, godi ei phroffil yn y ddwy wlad. Trefnwyd gweithdy yn Iwerddon i'r rhai a oedd â diddordeb yn y Cais PA3 gan olygu y gallai negeseuon ehangach y rhaglen gael eu clywed. Roedd MP yn teimlo bod y gweithgareddau a gynhaliwyd gan y Gyd-ysgrifenyddiaeth i fynd i'r afael â phryderon PMRh ynghylch y diffyg diddordeb mewn PA3 wedi cael derbyniad da a'u bod wedi bod yn llwyddiannus o ystyried y 25 o gynigion a gyflwynwyd. Mantais ychwanegol a derbyniol iawn i'r gweithgaredd hwn fu cyflwyno partneriaid newydd.

**Pwynt Gweithredu 23.11.2017/4 – Jason Thomas i ymchwilio ymhellach i'r cysylltiadau posibl rhwng cyfrif Twitter Croeso Cymru ac un Iwerddon Cymru.**

63. Canmolodd aelod y Gyd-ysgrifenyddiaeth ar ei gwaith caled i weddnewid yr hyn a oedd yn edrych yn dasg arbennig o anodd (a amlinellwyd yng nghyfarfod PMRh Kilkenny) wrth greu llawer o ddiddordeb yn y PA3.

**Eitem 8 ar yr Agenda – Trefniadau PMRh**

64. Cyflwynodd SE yr eitem hon, gan ddweud bod y Gyd-ysgrifenyddiaeth wedi gwneud llawer o waith er mwyn sicrhau bod y cyfarfod hwn yn gworwm. Fodd bynnag, oherwydd i aelod dynnu'n ôl ar y funud olaf, nid oedd hyn yn bosibl. Mae'r Gyd-ysgrifenyddiaeth yn sicrhau bod dyddiadau cyfarfodydd PMRh yn cael eu hanfon i'w derbyn cyn y cyfarfod. Gofynnodd SE am yr hyn y gallai'r Gyd-ysgrifenyddiaeth ei wneud yn y dyfodol i hwyluso'r cyfarfodydd hyn, er mwyn sicrhau presenoldeb cyson yr aelodau, o ran lleoliad ac amser y cyfarfodydd, a nodwyd y canlynol gan yr aelodau:-
- i. A yw'r angen i gael cworwm wedi'i benderfynu'n derfynol?
  - ii. Croesawyd y cyfle i gael y dyddiadau yn y dyddiaduron cyn gynted â phosibl;
  - iii. Trefnus iawn;

- iv. Croesawyd y gydnabyddiaeth bod presenoldeb Des Clifford yn dangos pwysigrwydd canolog y rhaglen;
- v. Rhaid i Gyfarwyddwyr/Uwch-reolwyr yr aelodau ddeall yr ymrwymiad ac, yn ei dro, ymgysylltu;
- vi. Bydd aelod sy'n bresennol heddiw fel eilydd yn mynd â'r neges yn ôl ynghylch pwysigrwydd presenoldeb rheolaidd;
- vii. Defnyddiol cael yr hyblygrwydd i ddirprwyo'r rhai sy'n bresennol;
- viii. Posibilrwydd cynnal cyfarfodydd drwy fideogynadledda;
- ix. Os yw'r angen i'r cyfarfodydd gael eu cynnal yn ardal y rhaglen yn dod yn faen tramgwydd, gellid ailystyried hyn;
- x. Roedd MP yn teimlo y byddai cael Caerdydd fel opsiwn yn synhwyrol;
- xi. Cytunodd MP y dylem ystyried defnyddio fideogynadledda mewn amgylchiadau eithriadol. Fodd bynnag, rhaid i ni fod yn ystyriol o golli'r ddynamig a geir drwy gyfarfod wyneb yn wyneb;
- xii. Cwestiynodd DK amseru'r cyfarfodydd, h.y. symud ail gyfarfod PMRh yn fwy tuag at fis Medi/Hydrif. Cadarnhaodd LW mai'r arfer cyffredin oedd cynnal y cyfarfodydd ym mis Ebrill a mis Medi. Fodd bynnag, gyda threigl amser, mae'r gallu i sicrhau dyddiad cyfleus wedi golygu bod yr ail gyfarfod yn llithro;

**Pwynt Gweithredu 23.11.2017/5 David Kelly i fynd ar drywydd y swyddi gwag ar PMRh.**

**Pwynt Gweithredu 23.11.2017/6 y Gyd-ysgrifenyddiaeth i ystyried adborth y Pwyllgorau ynghylch cyfarfodydd PMRh yn y dyfodol er mwyn cynyddu ymgysylltiad aelodau a'r nifer sy'n bresennol.**

**Eitem 9 ar yr Agenda – Hybu twf a chydlyniant yn rhanbarthau ffiniol yr UE**

65. Cyflwynodd y Cadeirydd Marianne Van De Vorle (MVDV), cynrychiolydd yr UE ar y Pwyllgor, i arwain yr eitem hon ar yr agenda.

66. Rhoddodd MVDV wybod i'r Pwyllgor am neges ddiweddar y Comisiwn Ewropeaidd ynghylch camau i roi hwb i dwf a swyddi mewn rhanbarthau ffiniol a dosbarthodd daflen i'r aelodau ei gweld. Y daflen oedd penllanw dwy flynedd o ymchwil ac mae wedi arwain at 10 cam a fydd yn mynd i'r afael â'r heriau a nodwyd.



**Pwynt Gweithredu 23.11.2017/7 y Gyd-ysgrifenyddiaeth i aildrydar ynghylch hyn.**

**Eitem 10 ar yr Agenda – Unrhyw fater arall/Dyddiad y cyfarfod nesaf**

67. Yn dilyn cais y Cadeirydd am unrhyw fater arall, gofynnodd DK i MVDV am ddiweddariad ar orffen rhaglen 2007/2013. Cadarnhaodd MVDV, ynghylch yr adroddiad terfynol, ei bod yn aros i'r Archwilwyr ddod yn ôl ati.

68. Lleoliad disgwylidig cyfarfod nesaf PMRh yw Waterford. Fodd bynnag, caiff hyn a'r dyddiad eu cadarnhau maes o law.

69. Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am eu hamser ac am gymryd rhan yn y cyfarfod.

Atodiad 1 – Rhestr o'r rhai oedd yn bresennol yn y cyfarfod

<u>Enw</u>	<u>Sefydliad</u>
Gwyn Evans	CLILC
Yr Athro Richard Davies	Awdurdod Addysg Uwch Cymru
Dr Alastair Davies	Llywodraeth Cymru
Des Clifford	Llywodraeth Cymru
Lucy Corfield	Llywodraeth Cymru
Chriss O'Connell	Cyfle Cyfartal
Jessica Williams	CGGC
Jason Thomas	Llywodraeth Cymru
Y Cyng. Brian McDonagh	E&MRA
Colm O'Connor	Llywodraeth Iwerddon
Stewart Roche	Awdurdod Addysg Uwch Iwerddon
Deirdre Finlay	WHEEL
Ciaran Kelly	The Marine Institute
Marianne Van de Vorle	Swyddog Desg yr UE
Sioned Evans	WEFO
Jane McMillan	WEFO
Mike Pollard	WEFO
Linda Weaver	WEFO
Phillipa Morgan	WEFO
Patrick Lilly	WEFO

David Kelly	SRA
Breda Curran	SRA
Marie Harnett	SRA

## Atodiad 2 – Rhestr o Ymddiheuriadau

<u>Enw</u>	<u>Sefydliad</u>
Barbara Burchell	CLILC – Gogledd Cymru (Sylwedydd)
Andy Richards	Undeb Unite
Peter Quantick	Commerce
Siobhan O’Higgins	Yr Adran Gwariant Cyhoeddus a Diwygio
Stephen Blair	Cynulliad Rhanbarthol Deheuol
Tracy Murphy	Yr Adran Swyddi, Menter ac Arloesedd
Niall McDonough	The Marine Institute (eilydd Ciaran Kelly)
Y Cyng. Seamus Cosai Fitzgerald	Cynghorydd Cynulliad Rhanbarthol Deheuol
Y Cyng. Brian McDonagh	E&MRA
Jonathan Earl	Chambers Ireland
Sarah Clarke	Cyngres Undebau Llafur Iwerddon
Deirdre Garvey	WHEEL (eilydd Deirdre Finlay)
Dave Corcoran	Adran Cyfathrebu, Newid Hinsawdd ac Amgylchedd
Labhaoise McKenna	EMRA (Sylwedydd)
Breda Curran	SRA
Bethan Thomas	WEFO

